HSE

Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

Damwain yn y gwaith?

Os ydych yn gyflogwr, yn hunangyflogedig neu'n rheoli safle, mae dyletswydd arnoch i gofnodi rhai damweiniau a digwyddiadau yn y gwaith o dan RIDDOR (Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995).

I gofnodi damwain neu ddigwyddiad yn gyflym, yn hawdd ac yn gyfrinachol, **ffoniwch Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau'r HSE ar:**

0845 300 9923

(O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am - 5.00 pm)

Bydd ein cynghorwyr yn eich helpu i gofnodi digwyddiad dros y ffôn. Byddant yn anfon copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion eich hun a chewch y cyfle i gywiro unrhyw wallau neu hepgoriadau. Caiff eich cofnod wedyn ei drosglwyddo i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Am ragor o wybodaeth am gofnodi damwain neu ddigwyddiad o dan RIDDOR neu i gofnodi **ar-lein** neu dros neges **e-bost**, ewch i www.hse.gov.uk/riddor/index.htm.

Drwy'r post, Canolfan Gyswllt Digwyddiadau, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG

Mae mor syml â hynny!

HSE

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhaid cofnodi:

- marwolaethau
- anafiadau difrifol;
- anafiadau sy'n para dros 3 diwrnod - pan na fydd gweithiwr neu weithiwr hunangyflogedig yn y gwaith neu'n methu â gwneud eu dyletswyddau gwaith arferol am fwy na 3 diwrnod yn olynol;
- anafiadau i aelodau o'r cyhoedd neu i bobl nad ydynt yn y gwaith, pan fydd rhaid mynd â hwy o safle'r ddamwain i'r ysbyty;
- rhai afiechydon sy'n gysylltiedig â'r gwaith;
- rhai digwyddiadau perygl - damweiniau fu bron â digwydd, pan fydd rhywbeth yn digwydd ond nad yw'n arwain at anaf, ond gallai fod wedi achosi anaf;
- Mae'n rhaid i osodwyr nwy cofrestredig CORGI hefyd gofnodi gosodiadau nwy peryglus y dônt ar eu traws.

Fe'ch cynghorir i ffonio a chofnodi'r digwyddiad cyn gynted â phosibl, drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau. Fel arall, gellir cwblhau ffurflenni ar-lein neu dros e-bost 24 awr y dydd.

Rhaid cofnodi marwolaethau, anafiadau difrifol a digwyddiadau peryglus ar unwaith, fodd bynnag dim ond y canlynol fydd yn rhaid eu cofnodi y tu allan i oriau gwaith arferol:

- damweiniau difrifol yn y gwaith;
- damweiniau pan fo sawl gweithiwr wedi'i anafu'n ddifrifol;
- damweiniau sy'n arwain at anaf difrifol i aelod o'r cyhoedd;
- damweiniau a digwyddiadau sy'n achosi aflonyddwch mawr, megis gwacâu pobl o adeiladau, cau ffyrdd, nifer o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty ac ati.

Mae'n rhaid cofnodi anafiadau dros dri diwrnod o fewn deg diwrnod.

Am ragor o wybodaeth am gofnodi digwyddiad, ewch i www.hse.gov.uk/ riddor/index.htm neu ffoniwch y Ganoflan Gyswllt Digwyddiadau ar **0845 300 9923**

Drwy ffonio llinell wybodaeth yr HSE cewch wybodaeth am iechyd a diogelwch yn y gweithle, canllawiau a chyngor arbenigol, Ffôn: 0845 345 0055.

80% **wedi'i ailgylchu**
Ar ôl gorffen â'r papur yma, cofiwch ei ailgylchu

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, cymeradwyo neu fasnachu. Cyhoeddwyd yn gyntaf 06/07. Nodwch HSE fel y ffynhonnell.

MISC769W 06/07 C50